

Arolwg ar-lein ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Gwybodaeth gefndirol

Mae rheolau sy'n rheoli pobl a sefydliadau sy'n ymgyrchu cyn etholiadau ond nad ydynt yn sefyll fel plaid wleidyddol nag ymgeisydd. Caiff y pobl hyn eu galw yn "ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau".

Mae'r rheolau hyn yn cael eu newid gan Ddeddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau a Gweinyddiaeth Undebau Llafur ("y Ddeddf") 2014. Rydym yn rheoleiddio'r ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau ac rydym ar hyn o bryd yn datblygu ein canllawiau i gynorthwyo ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i ddeall a chydymffurfio gyda'r rheolau newydd.


Mae'r gyfraith yn rheoleiddio gwariant ar ymgyrchoedd dros neu yn erbyn plaid wleidyddol benodol, pleidiau neu grwpiau o ymgyrchwyr, gan gynnwys ymgyrchu ar bolisiau neu faterion sydd â chysylltiad agos gyda phlaid benodol neu grwpiau o ymgeiswyr.

Mae'n cynnwys gwariant y gellid ei weld yn rhesymol fel y'i bwriedir i hyrwyddo neu leihau rhagolygon etholiadol plaid wleidyddol, pleidiau gwleidyddol neu grŵp o ymgeiswyr gan gynnwys pleidiau neu ymgeiswyr sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu polisi penodol.

Fel rhan o'r broses hon, gofynnem i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i ddweud wrthym sut maent yn credu y bydd y rheolau newydd yn effeithio arnynt a sut y gallwn sicrhau fod y canllawiau yn bodloni eu hanghenion. Derbyniom dros 120 o ymatebion ac rydym yn ddiolchgar i'r rheiny a gymrodd ran; mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn werthfawr iawn wrth ddatblygu ein canllawiau.

Canlyniadau'r arolwg


Cwestiwn 1



Derbyniwyd hefyd ymatebion gan flogwyr, ymddiriedolaethau elusenol, gwirfoddolwyr a chyrrff masnachol.


Cwestiwn 2

Eich sefydliad: ble mae eich sefydliad yn gweithredu?



Cwestiwn 3


Eich sefydliad: ydy'ch sefydliad wedi cael cyswllt gyda'r Comisiwn Etholiadol o'r blaen?




Roedd gan ymatebwyr gyswllt gyda ni trwy ddarllen ein canllawiau, gofyn am gyngor neu gofrestru fel ymgeisydd nad yw'n blaid.

Cwestiwn 4

Eich cefnogwyr: Faint o gefnogwyr sydd gan eich sefydliad?




Cwestiwn 5



Amlygodd ymatebwyr gefnogwyr eraill megis defnyddwyr gwasanaethau, ymgyrchwyr, mynychwyr gwasanaethau ffydd a grwpiau lleol.

Cwestiwn 6


Deddfwriaeth ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau: Pa mor hyderus neu ddim ycych chi eich bod chi'n deall y rheolau newydd ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau?



Nid oedd ymatebwyr yn teimlo'n hyderus am nifer o resymau, gan gynnwys cymhlethdod y ddeddfwriaeth a sut mae'r rheolau yn berthnasol mewn gwahanol sefyllfaoedd, megis gweithio ar y cyd neu weithio gyda chynrychiolwyr etholedig.


Cwestiwn 7

Gweithgarwch ymgyrchu: pa fath o weithgarwch ymgyrchu ydych chi'n bwriadu ei wneud rhwng mis Medi 2014 a mis Mai 2015?




Cwestiwn 8

Gweithgarwch ymgyrchu: fydd eich gweithgarwch ymgyrchu yn digwydd yn y cyfnod cyn un o'r etholiadau canlynol? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)



Cwestiwn 9


Eich anghenion chi: pa wybodaeth ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau hoffech yn ein canllawiau chi?



Roedd ymatebwyr yn benodol o awyddus am wybodaeth ar weithio ar y cyd a'r cyfryngau cymdeithasol.


Cwestiwn 10

Eich anghenion: pa rai o'r ffyrdd canlynol o gyflwyno gwybodaeth fyddai fwyaf defnyddiol a lleiaf defnyddiol?



Cwestiwn 11

Cyfathrebu ein canllawiau: rydym ar hyn o bryd yn bwriadu darparu cyngor a chanllawiau ar y rheolau ar gyfer ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau mewn nifer o ffyrdd. Gadewch i ni wybod os ydych yn bwriadu neu eisioes yn defnyddio'r canlynol:



Roedd pobl hefyd yn awyddus i dderbyn gwybodaeth drwy gyrrff ymbarél a wyneb yn wyneb.